


# Sut ydw i'n cofrestru fel Rhoddwr Organau?



Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn gronfa ddata gwbl ddiogel sy'n dal manylion pawb yn y DU sydd wedi penderfynu rhoi eu horganau i helpu eraill pan fyddan nhw'n marw.




Gall unrhyw un, o unrhyw oedran, ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau, a gall rhieni gofrestru eu plant.



Pan fyddwch yn cofrestru i fod yn rhoddwr organau, byddwch yn derbyn eich cerdyn rhoddwr yn y post – byddwch yn falch ohono!

Mae'n bwysig iawn rhoi gwybod i'ch teulu a'ch ffrindiau am eich penderfyniad – mae'n hanfodol eu bod yn ymwybodol o'ch awydd i helpu eraill, er mwyn iddyn nhw allu cefnogi eich penderfyniad pan ddaw'r amser.



Wrth gofrestru, gallwch ddewis pa rannau o'ch corff rydych chi'n fodlon eu rhoi – gallwch roi pob rhan o'ch corff, neu rai o'ch organau a meinweoedd. Po fwyaf rydych yn fodlon rhoi, y mwyaf o bobl y gallech eu helpu.



Aren




Cornbilennau



Calon



Ysgyfaint



Afu




Pancreas



Coluddyn Bach



Meinwe



Gall unrhyw un gofrestru i roi eu horganau, a bydd eich holl wybodaeth bersonol, gan gynnwys cyflyrau iechyd, yn cael eu gwirio adeg rhoi i sicrhau ei bod hi'n ddiogel trawsblannu eich organau i mewn i bobl eraill.

Gallwch ddiweddarau eich cofnodion unrhyw bryd, ee os ydych yn symud tŷ, neu'n dymuno newid eich penderfyniad neu newid pa organau neu feinwe rydych yn fodlon eu rhoi.



Mae dros 50,000 o bobl yn fyw heddiw, ar draws y DU, diolch i haelioni rhoddwyr organau a'u teuluoedd.



Ond ar hyn o bryd, mae tua 6,000 o bobl sy'n ddifrifol wael yn aros am drawsblaniad i achub eu bywydau.



Cofrestrwch nawr a dywedwch wrth eich teulu eich bod am roi rhodd bywyd